
# HEOL Y GADEIRLAN










## GWERTHUSIAD O ARDAL GADWRAETH

CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

2007

# cynnwys

1. CYFLWYNIAD

2. AROLWG O'R FFINIAU

3. ASESU NATUR/ CYMERIAD YR ARDAL

4. ARDALOEDD O GYMERIAD ARBENNIG

5. FFRAMWAITH GWEITHREDU

6. ARGYMHELLION

7. YMGYNGHORIAD


Diolchiadau

Cysylltiadau a gwybodaeth

Atodiad

- Canllawiau i berchnogion tai
- Cyngor am goed a thirlunio

# Map 1


A470
A469
M4
A48(M)
A48
Llys-faen
Pontprennau
Llaneirwg
Tongwynlais
Llanisien
Pentyrch
Rhiwbeina
Pentwyn
Trowbridge
Creigiau
Y Radur
R Taff
Llanrhymni
Cyncoed
Yr Eglwys Newydd
Y Mynydd Bychan
A Rhymni
Tredelerch
M4
Ystum Taf
Penylan
Gabalfa
Sain Ffagan
Cathays
Llandaf
Plasnewydd
A Elái
City Centre
Adamsdown
Treganna
Trelái
Y Sblot
Ynys Echni
Caerau
Butetown
A48
Grangetown
Bae Caerdydd
Ardal Gadwraeth
Heol y Gadeirlan
Heb fod ar raddfa
Yn seiliedig ar fapiau'r Arolwg Ordnans gyda Chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu yn torri hawlfraint y Goron a gallai arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Sir Caerdydd. LA 09005L

## 1.1 Cefndir

Mae ardaloedd cadwraeth yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Dynodir ardal yn Ardal Gadwraeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar ôl asesu cymeriad yr ardal ac yn aml mae'n ymestyn tu hwnt i'r adeiladau eu hun. Mae'r cynllun strydoedd, y strydlun, y coed a'r ardaloedd gwyrdd i gyd yn cyfrannu at ansawdd ardal. Mae dynodi ardal yn Ardal Gadwraeth yn golygu diogelu'r cymeriad hwn ac er mwyn cyflawni hyn, mae gan y Cyngor reolaeth ychwanegol dros ddymchwel adeiladau, datblygiadau a diogelu coed.

## 1.2 Gwerthusiadau

Mae dyletswydd ar y Cyngor i adolygu'r Ardaloedd Cadwraeth ac, er mwyn rheoli'r broses hon, paratowyd Strategaeth Ardal Gadwraeth. Mae'r Strategaeth yn nodi blaenoriaethau a'r meini prawf i'w defnyddio wrth asesu ardaloedd newydd a'r rhai sydd eisoes yn bodoli. Dynodwyd Heol y Gadeirlan yn Ardal Gadwraeth yn 1972. Mae'n gorwedd i'r gogledd orllewin o ganol y ddinas ac arni ceir enghreifftiau gorau Cymru o bensaernïaeth Fictoraidd ac Edwardaidd. Ar hyn o bryd, mae ffiniau'r ardal yn cynnwys y rhan fwyaf o Heol y Gadeirlan, y strydoedd cyfagos, a Chaeau Pontcanna [gweler map 2].

**Mae'r gwerthusiad hwn yn dilyn ymgynghoriad lleol ac mae'n darparu'r canlynol:**

- Sefydlu ffiniau'r ardal gadwraeth,
- Canfod cymeriad presennol yr ardal gadwraeth, a
- Mabwysiadu'r gwerthusiad a'r canllawiau i ddiogelu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

# 2 arolwg o'r ffiniau

Arolygwyd ffiniau'r ardal gadwraeth bresennol a'r strydoedd gerllaw. Dangosir popeth ar fap hanesyddol cynnar o Gaerdydd a baratowyd gan Thomas Waring yn 1869. Defnyddiwyd nifer o feini prawf i asesu'r ardal gadwraeth a'r cyfleoedd i newid ei ffiniau, sef:

- Ansawdd nodedig y lle
- Presenoldeb adeiladau tirnod a nodweddion tirwedd
- Mannau cyhoeddus neu breifat wedi'u diffinio'n dda
- Deunyddiau lleol o ansawdd uchel neu anarferol yn y treflun
- Manylion pensaernïol o ansawdd uchel
- Tirlunio caled a meddal o ansawdd uchel

## 2.1 Yr Ardal Gadwraeth Bresennol.



Mae gwaith arolygu ac arolwg o ansawdd adeiladau a manylion pensaernïol yn dangos bod yr ardal gadwraeth yn gyffredinol yn parhau i gwrdd â'r meini prawf ac mae mwyafrif yr ardaloedd o'i mewn yn dal i feddu ar gymeriad arbennig. Mae'r arolwg hefyd yn darparu tystiolaeth bod y mesurau diogelwch ychwanegol y mae'r dynodiad wedi eu darparu wedi arbed yr ardal rhag colli llawer o'i manylion pensaernïol.

**Mae'r newid mwyaf wedi digwydd:**


- Ar waelod Heol y Gadeirlan lle mae defnydd masnachol bellach yn dominyddu,
- Mewn lonydd cefn a gerddi cefn, ac
- Yng Ngherddi Sophia, lle ceir meysydd parcio a chaeau chwarae ar yr hyn oedd yn barcdir. Ond, er gwaethaf hyn, mae gan adeileddau hanesyddol o fewn yr ardal gadwraeth gysylltiadau pwysig gyda datblygiadau Heol y Gadeirlan. Mae mynedfeydd cefn y tai, eu waliau terfyn o garreg a'r porth trawiadol i Glôs Sophia i gyd yn adlewyrchu themau mawreddog cyn ystâd Bute. Mae'r ardal yn gorwedd o fewn Parc a Gerddi Cofrestredig Cadw: Gerddi Sophia.



Mae ffiniau'r ardal gadwraeth yn cynnwys llinell fympwyol ar draws caeau Pontcanna. Nid oes unrhyw adeilad o 'ddiddordeb pensaernïol na hanesyddol' yn yr ardal hon. Erbyn hyn, rhestrir yr ardal yn Barc Gradd II* yng Nghofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol Cadw. Mae'r dynodiad yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth asesu cynigion datblygu.



Map 2



Ardal Gadwraeth Heol y Gadeirlan
Mehefin 2007
Ffin yr Ardal
Estyniad Arfaethedig y Ffin
Adeiladau Rhestredig
Adeiladau Rhestredig lleol
Pontcanna Fields
River Taff
(Afon Taff)
Sophia Gardens
Welsh Institute of Sport
(Athrofa Chwaraeon Cymru)
Sophia Gardens

## 2.2 Tu hwnt i'r Ardal Ddynodedig

Ar gyfer yr astudiaeth, rhannwyd yr ardal yn is-ardaloedd i nodi'n fwy manwl y potensial am estyniad i'r Ardal Gadwraeth.



### Ardal 1

Adeiladwyd y rhan fwyaf o'r tai yn yr ardal hon rhwng 1901 a 1920 er y ceir ychwanegiadau modern o fewn hen stiwdios HTV. Yn gyffredinol, mae tai hynaf yr ardal wedi'u hadeiladu o garreg Pennant neu o fricsen goch neu fwff. Mae llawer o'r adeiladau hynaf sy'n dyddio nôl i 1901 yn dal i gadw'u nodweddion gwreiddiol megis waliau'r blaengwrt, simneiau a'u tu blaen ond collwyd nifer o'r nodweddion allweddol. Prin yw'r coed stryd yn yr ardal hon.



### Ardal 2

Ystyrir mai'r ardal hon yw'r enghraifft orau o dai sydd wedi cadw'u nodweddion gwreiddiol yn yr ardal gadwraeth hon gyda datblygiad yn dyddio nôl i 1869. Mae cymeriad nodedig i'r datblygiad gan y Gymdeithas Tir Rhydd-ddaliadol ac mae'n hollol wahanol i'r Ardal Gadwraeth. Mae hefyd yn cynnwys cnewyllyn o adeiladau sylweddol ar gyffordd Romilly Crescent a Conway Road.

Ceir nifer o hen goed ar hyd Severn Grove a Heol Conway. Maen nhw'n cyfoethogi'r olygfa ac yn ategu'r coed, y perthi a'r tyfiant hŷn yn y gerddi.



### Ardal 3

Mae'r ardal hon yn cynnwys tai teras a adeiladwyd o gwmpas 1901 gydag ychwanegiadau diweddarach yn 1920 ar hyd Llandaff Road, gan gynnwys bloc o fflatiau ar gornel Pen-hill Road ac ystâd fechan o dai ar un ochr i Llandaff Road. Ar gornel Llandaff Road mae Tŷ Suffolk. Mae'n adeilad tirnod ac iddo fanylion clasurol da er eu bod wedi cael eu newid yn helaeth.

Cafodd yr adeiladau ar hyd Llandaff Road a Llanfair Road eu hadeiladu'n nodweddiadol o garreg Pennant gydag addurniadau o Garreg Caerfaddon. Ac eithrio Llandaf Road, prin yw'r dystiolaeth o dirlunio nac o goed stryd o fewn y parth cyhoeddus.




### Ardal 4

Mae'r ardal hon yn dyddio nôl i 1901 ond gwelir rhai o'r adeiladau yn Wyndham Crescent a Severn Road ar fapiau cynharach. Mae tai yn Sneyd Street yn nodweddiadol o ystâd Bute, yn dilyn y llinell adeiladu o ffenestri crom hyd ar y gyffordd â Kings Road. Mae'r arddull hon yn ail ymddangos yn Kings Road er bod mwy o amrywiaeth yma. Ceir deunyddiau tebyg yn Wyndham Crescent ac mae'r rendro neu stwco ar ffasâd rhai o'r adeiladau hynaf yn llyfn. Mae dau adeilad rhestredig yn yr ardal hon; Eglwys Santes Catherine a gafodd ei hadeiladu yn 1886 ac Eglwys Gatholig Santes Fair yr Angylion a adeiladwyd yn 1907. Defnyddir yr adeiladau ar ben deheuol Wyndham Crescent at bwrpas masnachol ac maen nhw wedi eu newid yn sylweddol.

Newidiwyd terasau cynharaf Severn Road yn sylweddol. Nid oes lle agored cyhoeddus a phrin yw'r tirlunio megis coed stryd na phlannu mewn gerddi ffrynt ar Kings Road.

Map 3




Ardaloedd Astudio

Ffin yr Ardal

Ardal Astudio

Gorfennaf 2006


## 2.3 Canfyddiadau a chasgliadau:

Mae'r casgliadau hyn yn crynhoi arolwg safle a gwerthusiad o'r adeiladau, fe'u hategir gan ymgynghoriad lleol gan argymell y canlynol:

- Mae'r Ardal Gadwraeth yn parhau i gwrdd â meini prawf dynodiad.
- Byddai ymestyniad bach i gynnwys Sneyd Street a ffiniau gogleddol Kings Road yn cadarnhau un o rannau o ystâd Bute sydd wedi'u cadw orau.
- Er bod iddi gymeriad gwahanol, mae rhan o'r ardal dan sylw hefyd yn cwrdd â meini prawf dynodiad. Mae'r ardal hon yn cynnwys y tir Rhydd-ddeiliadol hanesyddol ac yn cynnwys Severn Grove, Romilly Crescent a Conway Road a dangosir hyn ar fap 4 fel darpar ardal gadwraeth. Ceir asesiad llawnach o gymeriad yr ardal hon mewn dogfen ar wahân.

Mae'r adrannau canlynol yn nodi cymeriad Ardal Gadwraeth Heol y Gadeirlan yn fwy manwl a chynnwys argymhellion ar gyfer ei diogelu a'i gwella.

# Map 4





## Ardal Gadwraeth Arfaethedig Conway Road


- Ffin Arfaethedig Conway Road
- Ffin Arfaethedig Heol y Gadeirlan
- Adeiladau Cofrestredig Statudol
- Adeiladau Cofrestredig Lleol

Heb fod are raddfa Gorfennaf 2006


1869




1881




1901



# 3 ardal gadwraeth heol y gadeirlan.
## asesiad o'i chymeriad

Lleolir Ardal Gadwraeth Heol y Gadeirlan i'r gogledd orllewin o ganol y ddinas ac mae'n cynnwys ardal ddeniadol o ddiwedd y cyfnod Fictoraidd ac Edwardaidd. Yn fras, mae dwy ran i'r ardal gyda pharcdir Gerddi Sophia a Chaeau Pontcanna ar yr ochr ddwyreiniol. Yn bennaf, defnydd preswyl a masnachol sydd i'r eiddo er mai masnachol yw prif ddefnydd ar ben deheuol Heol y Gadeirlan ac mae Stryd Pontcanna yn ardal siopa leol brysur.

Datblygwyd yr ardal yn ystod rhan olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan 3ydd Ardalydd Bute, y tirfeddiannwr mwyaf sylweddol yng Nghaerdydd ar y pryd ac un o ddynion cyfoethocaf y byd. Cyflogodd y pensaer, William Burges i droi Castell Caerdydd a Chastell Coch yn afradloneddau Gothig. Cafodd Burges ddylanwad ar yr ardalydd ifanc a sicrhaodd y byddai ei dir yng Nghaerdydd yn cael ei ddatblygu i safon ac arddull manwl. Cyflawnwyd arddull Bute yn bennaf drwy reoli'r brydles a rhagnodi cynllun yr heolydd a'r carthffosydd. Rhyddhawyd lleiniau tir ar brydles i adeiladwyr gan ystâd Bute. Gosododd ystâd Bute safonau a chyflogwyd penseiri i sicrhau y byddai ansawdd pensaernïol y tai a oedd yn cael eu hadeiladu o'r safon uchaf posibl. Mae'r rheolaeth lem hon gan ystâd Bute drwy ei phensaer, William Corbett, wedi gadael ei hôl ar yr ardal ac mae'r grid ffurfiol gyda'i rhythm o ran maint y lleiniau tir a chyfansoddiad yr adeiladau yn parhau. Yr ansawdd hwn sydd yn rhoi cymeriad arbennig i'r ardal.

Isod, ceir dadansoddiad byr o'r ardal gan ddefnyddio'r meini prawf mabwysiedig.

## 3.1 Ansawdd Nodedig Lle

Mae ansawdd nodedig yr ardal yn deillio o gynllun hanesyddol ei strydoedd a'r datblygiad uchelgeisiol a ymgymerwyd gan ystâd Bute. Cynlluniwyd Heol y Gadeirlan fel rhodfa lydan fawreddog. Er bod maint y lleiniau tir a'r cynllun wedi eu rhagnodi, rhoddodd yr ystâd ryddid i'r adeiladwyr ddewis y cynllun a'r deunyddiau. Mabwysiadwyd dull mwy safonedig wrth ddewis y math o dai a'u cynllun wrth gynllunio'r strydoedd tu ôl i Heol y Gadeirlan, gan ddangos hierarchaeth cynllun i adlewyrchu gwerth y tir a dosbarth cymdeithasol hefyd.

Terasau o dai sydd yma yn bennaf. Mae cynllun cyffredin y tai yn dangos dwy ystafell ar bob llawr, gydag estyniad llai a mwy plaen y tu ôl. Yn aml, ceir drysau ffrynt cyfatebol sy'n creu rhythm unedig ar hyd y stryd.

Yn aml, mae'r terasau'n cynnwys un llawr, gyda thalcenni uwch yn y canol ac ar bob pen er mwyn pwyslais gweledol.

Allwedd i ansawdd yr ardal yw perthynas y tai â'r heol. Mae'r llinellau adeiladu yn barhaus heb unrhyw estyniad i'r ffasâd ar wahân i ffenestr grom neu bortsh. Cynlluniwyd y waliau ffrynt a'r waliau terfyn a'r cilbostiau er mwyn cyfrannu at gyfanwaith y ffasadau stryd.



















## 3.2 Presenoldeb adeiladau tirnod a nodweddion tirwedd

Ceir y grwpiau tai a'r tai mwyaf mawreddog ar Heol y Gadeirlan ac yma gwelir ffurfiau to a chodiadau ar eu gorau. Prin yw'r adeiladau tirnod ar wahân i le mae cyferbyniad mewn arddull adeiladu yn gwahaniaethu tai neu grwpiau adeiladau. Mae'r cyn synagog, Y Santes Fair, ar ben uchaf Stryd Talbot a'r Eglwys Bresbyteraidd ar Heol y Gadeirlan yn eithriadau. Mewn mannau eraill mae diffiniad ac amrywiaeth yn cael eu creu gan y manylion ac addurniadau ar yr adeiladau neu gan amlinell y to neu'r ffenestr grom.

## 3.3 Mannau cyhoeddus neu breifat wedi'u diffinio'n dda

Mae arwyddocâd hanesyddol i'r tirnod o fewn yr ardal drefol a'r ardal gyfagos. Mae Caeau Pontcanna a Gerddi Sophia wedi'u cynnwys yng Nghofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol Cadw. Fodd bynnag, prin y gellir eu gweld o'r ardal breswyl gyfagos. Ceir wal uchel o gwrs o garreg Pennant a Radur, gyda cherrig copa nodedig yn rhedeg ar hyd Rhodfa Sophia ynghyd â rhodfa drwchus o goed derw bytholwyrdd a phisgwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r pyrth i mewn i'r parc wedi'u cloi, ac mae'r safle carafannau sy'n gyfochrog â'r lôn hefyd yn rhannu'r ardal.

Mae'r ardaloedd cynlluniedig sylweddol eraill yn cynnwys Gerddi Plasturton a'r rhodfa o goed a'r ymylon gwair sy'n rhedeg i'r gogledd o'r gerddi ar hyd canol Gerddi Plasturton.

Mae adeiladau cadarn yr ardal yn arwain i'r gogledd o ganol y ddinas. Er bod tu blaen y tai yn fawreddog, mae'r lonydd tu cefn yn llai deniadol. Maen nhw'n tueddu i redeg rhwng y strydoedd ac wedi'i hamgáu gan waliau cerrig uchel. Mae eu cyflwr yn dibynnu pa mor dda y cânt eu cynnal a'u cadw, ond mae ganddyn nhw bwrpas defnyddiol yn gwasanaethu cartrefi heb effeithio nemor ddim ar strydluniau mwy cyhoeddus yr ardal.

## 3.4 Deunyddiau o ansawdd uchel neu anarferol

Mae'r defnydd eang a wneir o garreg Pennant mewn adeiladau yn rhoi cymeriad arbennig i'r ardal. Mae o ansawdd da ac wedi'i osod mewn cyrsiau rheolaidd gyda gorffeniad o wyneb carreg a rhimyn cul o forter rhwng y cerrig. Fel arfer, defnyddir carreg Caerfaddon ar y ffenestri crom, y cornisiau a'r parapetau. Po fwyaf mawreddog yw'r tŷ neu'r teras, mwyaf addurniadol yw'r defnydd o garreg Caerfaddon.

Defnyddiwyd brics hefyd yn yr Ardal Gadwraeth naill ai fel y prif orchudd neu mewn naddiad ar eu waliau allanol. Fe'u defnyddir yn aml i ategu neu gyferbynnu â'r garreg Pennant mewn patrwm bywiog lliwgar. Mae talcenni hanner coediog neu loriau uchaf a ffenestri crom yn aml yn ychwanegu at y cynllun.

Mae toeau llechi naturiol yn bwysig hefyd, er ceir nifer sylweddol yn defnyddio llechi artiffisial. Maen nhw'n serth, yn aml gyda thalcen neu dalcendo amlwg yn codi ar linell wyneb wal y tŷ. Mae hon yn nodwedd gyffredin mewn unedau pen teras lle mae siâp y to yn ychwanegu diffiniad i'r ffrynt sy'n wynebu'r stryd. Yn aml, mae estyll tywydd rhwyllog yn addurno'r talcenni, y ffinials a'r parapetau. Uwchben, mae simneiau yn codi yn eu trefn i ddiffinio rhythm y llain a chynllun yr adeiladau. Mae'r effaith gyffredinol yn creu cynllun trefol geometrig cadarn gyda golygfeydd hir a nenlinellau nodedig.

# 3.5 Manylion pensaernïol o ansawdd uchel

## Gwaith maen

Defnyddir carreg Caerfaddon addurnol i gyferbynnu â thywodfaen Pennant yn drawiadol iawn. Gellir gweld gwaith brics patrymog, yn aml gyda chladin o deils neu baneli hanner coediog ar derasau a thai hefyd.



## Gwaith saer

Mae tai a therasau gothig yn dangos amrywiaeth eang o ffenestri, yn aml ar un adeilad. Ceir ffenestri oriel a chrom yn aml yn ymestyn allan o'r llawr cyntaf a cheir bwâu gothig, paneli ffenestri plwm, rhwyllwaith, gargoiliau ac amgylchynau o waith carreg addurnol drwy'r ardal. Mae hyn i gyd yn gwneud blaen y tai a'r terasau yn ddiddorol. Defnyddir ffenestri codi sash yn aml gyda chyrn addurnol ar reilen gwrdd drwy'r ardal.



## Drysau

Mae drysau ffrynt mawreddog yn drawiadol iawn; maen nhw o goed wedi'i baentio ac yn aml wedi'u haddurno gyda gwydr lliw, colfachau addurnol, cnocwyr drws a blychau llythyrau.



## Portshys

Mae portsh gwych yn rhoi mynedfa drawiadol i'r adeiladau, gan wneud y gilfach sy'n arwain at y cyntedd yn ddihangfa addurnedig ac ymarferol o olwg y stryd. Oddi mewn maen nhw wedi eu gorchuddio â theils sglein addurnedig ar y waliau neu deils llosgliw ar y llawr.

## Rheiliau a waliau terfyn



Mae waliau terfyn yn cynnwys Tywodfaen Pennant. Cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, haearn gyr oedd y deunydd a ddefnyddiwyd ar gyfer y rhan fwyaf o waith haearn. Yn ddiweddarach, addaswyd haearn bwrw a fas-gynhyrchwyd ar gyfer rheiliau relins a gatiau allan o lyfrau patrwm ac maen nhw'n adlewyrchu themâu gothig mewn croesau, sbigynnau a phennau picell. Ceir hefyd enghreifftiau diweddarach o baneli haearn bwrw yn dangos patrymau troellog addurnol. Prin yw'r ardaloedd lle ceir relins a gwaith haearn gwreiddiol o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rheiliau o ddur modern sydd wedi eu disodli yn dueddol i fod yn llai o ran graddfa a phroffil ac mae hyn yn tanseilio nodweddion cadarn y gwaith haearn addurnol o ddiwedd y 19 ganrif a'r cyfnod Edwardaidd.



## Toeau, simneiau a ffenestri to

Mae llechi llwyd Cymru gyda thoeau sydd ar oledd serth wedi'u gosod mewn teils crib cribog; ceiliogod gwynt neu ffinials yn diffinio pob teras. Mae ffurfiau toeau gothig o fewn talcenni, ffinials a thyredau addurnol yn nodweddiadol o'r tai mwyaf mawreddog.

# 3.6 Tirlunio caled a meddal o ansawdd uchel



## Y Parcdir

Mae'r parcdir sydd o fewn ffiniau'r Ardal Gadwraeth yn ffurfio rhan o'r man agored helaeth sy'n rhedeg i'r gogledd ar ddwy lan Afon Taf o ganol dinas Caerdydd. Mae hyn i gyd yng Nghofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol Cadw. Mae'r Gofrestr yn disgrifio'r man agored fel parc canolog wedi'i gadw'n dda yng nghanol y Ddinas ac yn nodi'r rhodfeydd echelinol gwych o bisgwydd sy'n nodwedd drawiadol o'r parcdir.



## Strydoedd a rhodfeydd

Mae'r unig dirlun ffurfiol yn yr ardal o fewn Gerddi Plasturton. Mae coed stryd yn bwysig drwy'r ardal ac ar hyd y rhan fwyaf o strydoedd. Mae'r coed mwyaf sylweddol ar hyd Heol y Gadeirlan. Yn y strydoedd llai, ceir mathau llai, mwy addurnol wedi'u dewis i ategu graddfa'r tai a chynllun y strydoedd. Mae'r rhywogaethau'n cynnwys yr ieuwydden i'r gorllewin a phisgwydden, sycamorwydden, masarn, criafolen neu fedwen arian i'r dwyrain.




## Tirlunio meddal o fewn gerddi

Yr un mor bwysig i gymeriad yr ardal yw'r gerddi, y coed a'r llwyni sy'n codi uwchben y waliau a'r perthi terfyn. Mae'r rhain yn darparu fframwaith addurnol a meddal ar gyfer y terasau cerrig, ac ynghyd â'r waliau terfyn yn creu rhythm nodedig i faint y lleiniau a graen yr adeiladau. Mae'r gymhareb gynnil hon o linell gardd ac adeiladau yn hanfodol i gymeriad yr Ardal Gadwraeth.



## Tirlunio caled

Mae ardaloedd sylweddol o bafin a chwrbyn Tywodfaen Pennant wedi'u cadw yn yr ardal gadwraeth. Mae'r garreg yn cyfoethogi ansawdd a gwead y strydluniau yn yr ardal. Mae hefyd yn ategu'r defnydd eang o waliau isel o garreg tywodfaen Pennant. Mae pafinau concrit neu flociau yn fwy cyffredin lle cafwyd cynlluniau rheoli traffig neu lle gwnaed gwaith ar y ffyrdd.



# 4 ardaloedd o gymeriad arbennig

**Dynodwyd nifer o is-ardaloedd i'w hasesu'n fwy manwl i roi arwydd cliriach o gyfleoedd i wella.**

## 4.1 Heol y Gadeirlan: O Heol y Bontfaen i Glôs Sophia

- Mae hon yn ffordd bwysig a choed ar ei hyd sy'n arwain tua'r gogledd o'r ddinas
- Defnydd masnachol sydd i'r adeiladau yn bennaf
- Ceir rhai adeiladau modern sy'n gynhenid i'r strydlun, er enghraifft yr orsaf betrol a dau floc uchel yn 31-37 Heol y Gadeirlan
- Mae gan nifer o eiddo estyniadau sylweddol ar gyfer swyddfeydd yn y cefn.





### Materion gofid

- Mynd yn lle amhersonol a cholli hunaniaeth leol oherwydd y defnydd masnachol ohono yn ystod y dydd a'r cefnu ar yr ardal sy'n digwydd gyda'r nos.
- Cynnal a chadw gwael o'r blaen cyrtiau a'r ardaloedd gerddi agored, yn aml yr arwyddion yn cuddio prif olygon adeiladau rhestredig pwysig,
- Parcio ceir: ar strydoedd ac yn y gerddi yn bychanu cymeriad yr ardal
- Mae rhai o'r estyniadau sylweddol yng nghefn yr adeiladau yn tanseilio integriti'r ffurf adeiledig a'r golwg i'r gorllewin o Erddi Sophia,
- Y pwysau am gael mwy o ddwysedd preswyl,
- Gerddi a rheiliau wedi cael eu symud a chyrtiau blaen wedi eu palmentu,
- Traffig trwm drwy'r dydd.



### Cyfleoedd i wella

- Cael gwared ar arwyddion, neu eu rhesymoli,
- Gwrthwynebu mwy o barcio cerbydau yn y gerddi ffrynt
- Adfer gerddi ffrynt wrth i gyfleoedd datblygu godi
- Adfer terfynau ffrynt a chefn er mwyn ail-ddiffinio cynllun hanesyddol yr ardal,
- Cyfle i ddychwelyd safleoedd addas yn ôl at ddefnydd preswyl,
- Cyfle i wella golwg Gerddi Sophia,
- Symud parcio o'r gerddi cefn,
- Gostyngiad yn nifer yr estyniadau yn y cefn
- Dynodwyd nifer o'r adeiladau yn y rhan hon o Heol y Gadeirlan yn rhai sy'n haeddu cael eu hystyried i'w cynnwys yn rhestr statudol Cadw sef: 2, 4, 6 ,26 a 7,9,11 ac 13 Heol y Gadeirlan. Nodwyd nhw oherwydd eu bod yn cadw manylion pensaernïol sylweddol.











# 4.2 Heol y Gadeirlan: O Glôs Sophia i'r gogledd-orllewin

- Tu hwnt i Glôs Sophia, mae cymeriad yr ardal yn newid, er bod yr adeiladau yn dal i arddangos dull coegwych Bute o ddefnyddio arddull adfywiad Gothig,
- Yn yr ardal hon, ceir yr enghreifftiau gorau o dai Fictoraidd yn y ddinas, gyda nifer o adeiladau ar restr Cadw,
- Ardal breswyl yw hi'n bennaf gyda rhai swyddfeydd proffesiynol a chlinigau,
- Mae nifer y gwestai a chartrefi gofal yn gostwng erbyn hyn a llawer yn newid i gael eu defnyddio ar gyfer defnydd preswyl,

## Materion gofid

- Mae newidiadau i ddefnydd yr adeiladau yn aml yn golygu pwysau am fwy o le parcio a gwasanaethau,
- Bu pwysau am gael adeiladu mewn gerddi cefn,
- Mae arwyddion ar adeiladau ac o fewn gerddi wedi'u lleoli'n wael, mae hyn yn tanseilio cymeriad ffrynt yr adeiladau,
- Gall newid trefniadau ar gyfer rheoli gwastraff niweidio cymeriad ac ansawdd ffrynt yr adeiladau ac ardaloedd y gerddi,
- Mae traffig trwm drwy'r dydd.

## Cyfleoedd

- Gwelliannau pellach drwy symud ychwanegiadau diolwg, diangfeydd tân ac estyniadau cefn wrth i'r cyfleoedd godi,
- Cael gwared ar arwyddion neu eu rhesymoli
- Gwella ac adfer waliau terfyn carreg ar y ffrynt yn wynebu'r stryd ac i'r lonydd cefn,
- Ail-sefydlu gerddi ac awyrgylch dawelach y lôn rhwng Heol y Gadeirlan a'r strydoedd i'r dwyrain wrth i'r cyfleoedd godi.
- Adfer manylion gwreiddiol ar adeiladau, waliau terfyn a thir caeedig fel amod o ganiatâd cynllunio ac wrth i gyfleoedd godi,
- Gwell cysylltiadau â'r parciau a'r caeau i'r dwyrain,
- Dynodwyd nifer o'r adeiladau yn y rhan hon o Heol y Gadeirlan yn rhai sy'n haeddu cael eu hystyried i'w cynnwys yn rhestr statudol Cadw sef; 42, 44, 46, 48, 50, 52, 118, 120, 130, 132 a 99, 101, 103, 105, 111, 113 Heol y Gadeirlan. Nodwyd nhw oherwydd eu bod yn cadw manylion pensaernïol sylweddol.

# 4.3 Gerddi Sophia

- Lleolir Gerddi Sophia ar ben deheuol y parcdir agored ar ochr ddwyreiniol Afon Taf.

- Dyma'r rhan o'r parcdir y gwneir y defnydd mwyaf helaeth ohoni, ar gyfer chwaraeon a ffurfiau eraill o hamddena. Mae'r ardal sy'n cynnal digwyddiadau ar safle'r cyn bafiliwn ac fe'i defnyddir ar gyfer digwyddiadau.

- Mae gan yr ardal gysylltiadau cadarn â'r Castell gan ei fod wedi'i agor gan Ardalydd Bute i wneud iawn am golli tir y castell. Fe'u cynlluniwyd gan Alexander Roos, fel man pleser gyda rhodfa addurnol, ffynhonnau a llyn.

- Mae'r gerddi yn cadw cysylltiadau agos gydag eiddo yn Heol y Gadeirlan.

- Lleolir yr ardal yn strategol mewn perthynas â chanol y ddinas a Pharc Bute. Amlygir hyn gan fod cymaint o le parcio ar gael ar ben deheuol y gerddi.





## Materion gofid

- Er bod y rhodfa ganolog sydd â choed ar ei hyd yn dal i fodoli mae cymeriad a'r defnydd a wneir o ardal Gerddi Sophia yn hollol wahanol erbyn hyn,

- Mae'r adeiladau newydd a'r defnydd newydd a wneir ohonyn nhw a'r parcio yn tanseilio cynllun hanesyddol y parc,

- Mae'r ffaith bod yr ardal yn agos i'r ddinas a bod cyfleusterau parcio yno yn ei gwneud yn ardal brysur ddydd a nos,

- Mae'r meysydd bowlio a chriced angen ardaloedd parcio a gwasanaethu sy'n ddiolwg ac yn cynnwys rhwystrau, goleuadau ac arwyddion,



- Tanseilir mynedfa trawiadol o Glôs Sophia gan y parcio ac arwynebedd gwael yr heol.

- Mae pwysau parhaol am ddefnydd masnachol yn ardal Gerddi Sophia,

- Mae angen goleuo llwybrau i gerddwyr drwy'r ardal a'i gwneud yn hygyrch yn y nos,



- Dylid cadw'r wal derfyn hanesyddol a dylid diogelu a chynnal a chadw'r ffyrdd mynediad cefn i'r tai ar Heol y Gadeirlan,

- Mae'r cyn borthdy, 'Y Mochyn Du' erbyn hyn wedi colli ei gymeriad hanesyddol drwy estyniadau ansensitif.

# Cyfleoedd i Wella




- Byddai o fantais i'r Gerddi gael fframwaith rheoli ehangach i nodi arwyddocâd hanesyddol a sensitifrwydd yr ardal ac i fonitro gallu'r ardal i wrthsefyll unrhyw newid. Y prif nod yw diogelu cymeriad a gwerth hanesyddol y parc. [Polisi Cynllunio Cymru 2002, a Pholisi 2.54 y Cynllun Datblygu Unedol]. Dynodwyd y cyfleoedd gwella canlynol i gyflawni'r nod hwn. O gytuno arnynt, gellid eu datblygu a'u nodi'n fwy penodol o fewn y fframwaith y cyfeiriwyd ato uchod.

- Gwella'r cylch mynediad i mewn i Erddi Sophia drwy leihau'r parcio, rhagor o dirlunio a gwella'r nodweddion hanesyddol gan gynnwys y wal derfyn, y plinthiau a'r rheiliau.



- Atgyweirio a gwella nodweddion hanesyddol y strydlun megis y waliau terfyn, y rheiliau a'r rhodfeydd sydd â choed ar eu hyd.

- Hyrwyddo treftadaeth naturiol ac adeiledig yr ardal drwy gyflwyno arwyddion mwy amlwg ar y stryd.

- Cyflwyno gwybodaeth deongliadol i hyrwyddo safleoedd llai enwog sydd o ddiddordeb hanesyddol, er enghraifft, lleoliad gwreiddiol y llyn, y ffynnon a safle'r seindorf



- Cyflwyno arwyddion i hyrwyddo llwybrau cyswllt i mewn i'r ardal a thrwyddi.

- Adolygu'r parcio wrth brif fynediad Gerddi Sophia ac Athrofa Chwaraeon Cymru a cheisio gostwng effaith materol a gweledol adeiladau ar barcio ar y stryd ac ardaloedd gwasanaethu .

- Archwilio cyfleoedd i ostwng effaith weledol y ffensio palis ar hyd y rhodfa ar lan yr afon wrth Athrofa Chwaraeon Cymru, Clwb Criced Morgannwg a'r Clwb Bowlio.




- Gostwng effaith weledol yr iardiau cerbydau gwasanaethu yng nghefn Athrofa Chwaraeon Cymru drwy wella'r sgrinio/tirlunio .

- Llwybrau mynediad 24 awr ac eglurder drwy wella'r goleuo a theledu cylch cyfyng.

- Gwella'r lle agored cyhoeddus / parcdir a'i ddraeniad i'r de o Erddi Sophia ynghyd â'i ddefnydd dros dro / ar gyfer digwyddiadau.

- Dileu'r graffiti drwy'r ardal a lleihau'r cyfleoedd i'r un peth ddigwydd eto.



- Gwella'r cyfleusterau ar gyfer defnyddwyr Gerddi Sophia gan gynnwys eisteddleoedd a biniau sbwriel.

- Gwella'r llwybrau cerdded i gerddwyr a llwybrau beiciau drwy'r ardal.

**Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfeirio at y map isod:-**




| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ffin Gerddi Sophia | | Prif fynedfa i Erddi Sophia |
| | Maes Parcio Ceir | | Mynedfeydd i'r Ardal |
| | Maes Parcio Coetsys | | Rhodfa o Goed Pisgwydd |
| | Afon Taf | | Ffin Wal Gerrig |

# 4.4 Y Terasau Preswyl i'r dwyrain a'r gorllewin



- Mae Rhodfa a Gerddi Plasturton yn gyfochrog â Heol y Gadeirlan, ac yn creu cynllun grid ffurfiol o fewn ystâd Bute,
- Mae Talbot Streer, Hamilton Street a Sneyd Street yn creu llwybrau croes gyda chorneli a bwysleisir gan doeau addurnol a ffenestri crom,
- Yng Ngherddi Plasturton ceir hen goed, lawntydd gwair, rheiliau a phorthdy bach. Mae plant yn eu defnyddio'n helaeth a cheir cefnogaeth leol gref i gadw cymeriad yr ardal yn ardd bleser Fictoraidd,
- Mae'r adeiladau o gwmpas yn amrywio o 2 i 3 llawr. Lleolir y tai tri llawr ar ben y terasau ac o gwmpas gerddi Plasturton a'r prif gyffyrdd, gan greu cyfansoddiad cadarn o adeiladau.
- Mae'r terasau i'r dwyrain yn fwy amrywiol eu harddull, gydag arddan gosfa dda o nodweddion addurnol sy'n cael eu creu drwy gymysgu deunyddiau ac addurn.



## Materion gofid

- Mae pob teras wedi cael ei gadw a'i gynnal yn dda. Dangosodd arolwg o gyflwr adeiladau bod manylion gwreiddiol wedi'u cadw'n dda,
- Er bod gerddi a pherthi'n cael eu cadw'n dda, mae'r llain ganol yn Rhodfa Plasturton wedi ei difrodi gan geir yn parcio arni,
- Mae pwysau am gael parcio ar y stryd drwy'r ardal hon.
- Gallai trefniadau rheoli gwastraff newydd gael effaith sylweddol ar y parth cyhoeddus.
- Ceir anghenion sy'n gwrthdaro a phwysau ynghylch y defnydd a wneir o Erddi Plasturton



## Cyfleoedd i Wella

- Dylid symud y parcio o'r llain ganol yn Rhodfa Plasturton drwy gryfhau'r mesurau gorfodi. Gallai'r gwasanaethau perthnasol ymchwilio'r mater o osod atalydd priodol drwy ymgynghori â chynghorwyr a thrigolion lleol.
- Gellid diogelu rhagor o'r manylion gwreiddiol drwy gynnig cyngor ar gymeriad yr ardal gadwraeth a rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r mater,
- Gellid adfer y rheiliau drwy gyfarwyddyd lleol a'i hyrwyddo wrth i'r cy fleoedd datblygu amlygu eu hunain,
- Gellid ymchwilio i gynllun parcio amgen ar gyfer y trigolion er mwyn gwella'r strydlun,
- Dylai cynllun gwella ar gyfer Gerddi Plasturton eu hadfer i'w cyflwr gwreiddiol hyd y bo'n ymarferol gan gynnwys cynlluniau plannu. Bydd angen i'r cynllun ddarparu, ar y cyd â'r gymuned leol, ar gyfer y galw lleol am gyfleusterau chwarae.



# 4.5 Rhodfa Sophia

- Rhai o nodweddion Rhodfa Sophia yw'r coetsiws ('coach houses') a'r iardiau gwasanaethu sydd wedi eu lleoli tu cefn i Heol y Gadeirlan,
- Cafodd llawer o'r adeiladau gwreiddiol eu disodli gan garejis modern neu erddi agored ac ardaloedd parcio,
- Mae'r adeiladau wedi eu codi o garreg neu fricsen goch ac, yn aml, yn cadw'r manylion sy'n adlewyrchu eu defnydd blaenorol e.e. hoistio, llofftydd a ffenestri crom, ceiliogod gwynt, ffinials a fentiau 'louvre'.





## Materion gofid

- Achosodd dymchwel adeiladau nad oedd yn cyfrannu dim at gymeriad yr ardal gynnydd sylweddol mewn tai mewnlenwad,
- Adeiladwyd tai ar gyn erddi hefyd,
- Yr hyn sy'n dod i'r amlwg yw ffryntiau digymeriad i'r tai, gan golli cymeriad ac amrywiaeth yn y llinellau crib, yn yr addurniad a graddfa'r adeiladau,
- Mae tu blaen cryf yr adeiladau sy'n wynebu'r lôn fach yn cael ei danseilio gan ofynion gwasanaethu'r defnyddwyr preswyl newydd.



## Cyfleoedd i Wella

- Dylid cadw'r coetsiws a'r garejis hanesyddol sy'n adlewyrchu cymeriad y Rhodfa,
- Gwella ac atgyfnerthu graddfa a chymeriad cynllun cynnar yr heol a graddfa'r adeiladau mewn cynigion am ddatblygiadau newydd. Os defnyddir dull traddodiadol neu fodern o fynd ati, dylai graddfa, uchder a chynllun adlewyrchu rôl gynorthwyol diymhongar y cyn goetsiws.
- Dylid cadw yr amrywiaeth yn ffurf yr adeiladau.
- Dylid cadw lled y lleiniau, y waliau terfyn a'r rhythm y maen nhw'n ei greu o fewn y cynigion datblygu.
- Dylid cadw ac atyfnerthu'r llinell sefydledig yr adeiladau ar ymyl y ffordd mewn cynigion datblygu.
- Dylid amgáu gerddi sydd wedi'u tanseilio gan barcio agored pan fo cyfleoedd datblygu'n codi.
- Dylid ceisio adfer y waliau hanesyddol os yw cyfleoedd datblygu'n codi.
- Mae lle i wella'r cynlluniau parcio ar y cyd â threfnu'r ardaloedd gwasanaethu yn y cefn.



# 4.6 Stryd Pontcanna











- Mae hon yn ardal leol brysur,
- Ynddi ceir caffis, tai bwyta a siopau sy'n gwasanaethu'r gymuned breswyl a masnachol,
- Mae'r teras yn cadw eu ffryntiau siopau a'u 'fascia'
- Mae coed y stryd yn ychwanegu at awyrgylch yr ardal,

## Materion gofid

- Gellid gwella arwynebedd y ffyrdd,
- Mae rhai o'r arwyddion siop a stryd yn ymwthiol ac yn cuddio manylion pensaernïol neu olygfa stryd
- Dylid cadw'r cymeriad defnydd-cymysg bywiog sydd i'r ardal
- Mae tagfeydd a phwysau am le i barcio ar y stryd yn bodoli drwy'r dydd,
- Lleolir eiddo preswyl wrth ymyl mannau sydd yn aml ar agor yn hwyr.

## Cyfleoedd i Wella

- Rhoi arwyneb newydd ar strydoedd wrth i'r cyfleoedd godi,
- Rhesymoli'r goleuadau a'r croesfannau ar gyffordd y stryd â Heol y Gadeirlan,
- Symud sbwriel stryd oddi ar y pafin ac atal rhagor o sbwriel,
- Ystyried y parcio o gwmpas yr ardal a'r sgôp i reoli.

## Y Cefndir

Mae Adrannau cynharach wedi disgrifio'r nodweddion cymeriad arbennig sydd i'r ardal gadwraeth ac wedi dynodi'r potensial i'w gwella. O'u mabwysiadu gellir defnyddio'r gwerthusiad a'r arweiniad fel a ganlyn:

- I ddiffinio cynllun gwella a fydd yn sail i ddatblygiad yn yr ardal,
- I fod yn sail i asesu'r ceisiadau cynllunio yn unol â Pholisi 3 y Cynllun Lleol.
- Sefydlu blaenoriaethau ar gyfer rheoli'r parth cyhoeddus yn y dyfodol.
- I ddarparu arweiniad ar nodweddion arbennig yr ardal a sut i'w diogelu.

## Dyma'r cyfleoedd a geir yn y gwerthusiad:

- Ymestyn y diogelwch i feysydd sy'n cwrdd â'r meini prawf
- Cynnal cymeriad arbennig Ardal Gadwraeth bresennol Heol y Gadeirlan a darpar Ardal Gadwraeth Conway Road,
- Sicrhau bod datblygiadau newydd wedi eu hintegreiddio'n dda,
- Er mwyn gwella'r parth cyhoeddus rhaid cyfeirio at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth a'r gwelliannau a nodwyd yn y gwerthusiad.
- Cynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gymeriad arbennig yr ardal
- Annog y rhai sy'n byw neu'n gweithio i ddiogelu cymeriad arbennig eu heiddo.
- Cefnogi mentrau lleol i gadw'r ardal yn lle deniadol a bywiog i fyw a gweithio ynddi.

## Y materion y dylid mynd i'r afael â nhw:

- Pwysau parhaus i newid ac ymestyn adeiladau a gerddi,
- Pwysau parhaus am barcio ar y stryd, a'r tarfu ar y traffig sy'n digwydd o ganlyniad,
- Diffyg cynnal a chadw ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol drwy brinder arian yng nghyllidebau'r Cyngor,
- Pwysau sy'n gwrthdynnu dros gael newid adeiladau a thai i gwrdd ag amcanion eraill, er enghraifft gwella effeithiolrwydd ynni, a diogelwch ar gyfer tai,
- Tagfeydd traffig parhaus ar strydoedd cefn ac ar Heol y Gadeirlan,
- Gwrthdaro rhwng cadw awyrgylch dawel yr ardal a'i phoblogrwydd fel ardal breswyl canol y ddinas. Mae hyn yn arwain at ddwysedd uwch.
- Pwysau i ddatblygu cyfleusterau hamdden o fewn Gerddi Sophia a fyddai'n niweidio ansawdd ac awyrgylch y tirwedd hanesyddol.

Bwriad yr adran olaf hon yw mynd i'r afael â chanlyniadau'r cynigion a'r arweiniad ar gyfer diogelu a gwella'r Ardal Gadwraeth.

## 5.2 Dulliau o wella'r Ardal Gadwraeth

### Arweiniad

Y dull mwyaf effeithiol o wella'r Ardal Gadwraeth yw sicrhau bod y rhai sy'n cynllunio gwaith neu ddatblygiad yn deall ei chymeriad. Mae'r cyfarwyddyd a geir yn yr adran olaf yn rhoi cyngor ar sut y gellir diogelu adeiladau mewn cynigion ar gyfer datblygu. Mae hefyd yn darparu cyngor i'r rhai sy'n ystyried gwneud gwaith atgyweirio a chynnal.

### Gwella

Yn ôl Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 mae dyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol i baratoi cynllun gwella Ardal Gadwraeth. Dim ond wrth gydweithredu ag Ardaloedd Gwasanaethu eraill y Cyngor ac wrth gydweithredu â datblygwyr, y gymuned neu gyrff cyhoeddus eraill y gellir sicrhau'r gwelliannau hyn.

Isod, nodir y cyfleoedd y gallai'r Cyngor gymryd rhan ddylanwadol ynddynt wrth sicrhau gwelliannau.

1. Trwy fabwysiadu'r canllawiau a'r cyfeloedd i wella a nodwyd yn rhan 3 a 4 o'r gwerthusiad hwn ac yn atodiad 2 a 3.

2. Rheoli a chynnal ystâd y Cyngor gan gynnwys eiddo, parciau a gerddi. Mae'r cyfleoedd yn Adran 3 yn sail i raglen i wella ardaloedd Gerddi Sophia a Gerddi Plasturton.

3. Hyrwyddo dealltwriaeth o arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol ystâd Bute. Gellid cyflawni hyn drwy wella'r dolenni cyswllt â'r gymuned, yr ysgolion, llyfrgelloedd a grwpiau,

4. Drwy gyllidebau'r Cyngor ar gyfer rheoli'r parth cyhoeddus.

   - Atgyweirio tai,
   - Cymorth grant i wella effeithiolrwydd ynni mewn cartrefi
   - Gwella priffyrdd a'u hatgyweirio a gwella llwybrau cyswllt
   - Parciau – ac yn benodol cynnal a chadw a gwella Gerddi Sophia a Gerddi Plasturton
   - Cynnal glan yr afon ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd

5. Drwy sicrhau anogaeth a chymorth mentrau lleol i wella ac atgyfnerthu siopau lleol a gwasanaethau cymunedol.

Mae Adran 4 y Gwerthusiad a'r Fframwaith ar Gyfer Datblygu yn cynnig sail i gyfraniadau datblygwyr hefyd os yw'r cynllun datblygu yn cynnig cyfle ar gyfer gwelliant. Byddai hyn yn golygu y gallai datblygwyr fel budd-ddeiliaid chwarae rhan allweddol wrth gydweithio gyda'r Cyngor a'r gymuned i gyflawni nod cyffredin – gwella'r ardal gadwraeth a'r adeiladau a gei ynddi.

# argymhellion

**Mae'r argymhellion canlynol yn crynhoi casgliadau'r gwerthusiad a'r camau y gellir eu cymryd wrth eu mabwysiadu.**

- Bod crynodeb o'r gwerthusiad a'r Cyfarwyddyd yn atodiad 1 a 2 yn cael ei gyhoeddi.
- Bod blaenoriaethau ac argymhellion y gwerthusiad ar gyfer gweithredu i'w cadarnhau fel sail ar gyfer mentrau corfforaethol yn yr Ardal Gadwraeth,
- Mae'r gwerthusiad a'r asesiad o gymeriad yr ardal yn Rhan 3 a 4 yn rhoi fframwaith i asesu ceisiadau cynllunio yn unol ag Adran 72 y Ddeddf,
- Yn dilyn ymgynghoriad, bod yr addasiad i'r ffiniau fel y gwelir ar Fap 2 yn cael ei fabwysiadu yn unol â'r Ddeddf.
- Hyrwyddo arwyddocâd teulu Bute a'r ystâd, ei benseiri; Burges a Corbett, a chysylltiadau agos yr ardal â phrosiect Castell Caerdydd ar y cyd â grwpiau cymunedol,
- Sicrhau bod y Gwerthusiad a gwybodaeth am hanes yr ardal ar gael i'w hastudio yn y llyfrgell ac yn yr ysgolion lleol.
- Ceisio sicrhau bod cyfleoedd ar gael i ddefnyddio deunydd archif hanesyddol a chofnodion ffotograffig a'u bod ar gael i'w defnyddio o fewn ysgolion lleol,
- Dylid paratoi Cynllun Rheoli Cadwraeth ar gyfer y parciau hanesyddol i'w ddefnyddio fel arweiniad ar gyfer eu cynnal yn y dyfodol. Dylai'r cynllun sicrhau mynediad i bawb heb golli cymeriad yr ardal.
- Yn dilyn cadarnhad o'r cyfleoedd gwella a nodwyd yn Rhan 4, dylid cytuno ar gynllun atgyweirio a chynnal a chadw ar gyfer Parciau a Phriffyrdd er mwyn sicrhau bod unrhyw waith sy'n cael ei wneud o fewn y parciau hanesyddol a'r parth cyhoeddus yn sensitif i gymeriad pob Ardal Gadwraeth,
- Yn dilyn ymgynghoriad, bod darpar ardal gadwraeth ardal Conway Road fel y gwelir ar fap 4 yn cael ei gadarnhau a'i hysbysebu yn unol â'r Ddeddf.

Gellir cael manylion am Adeiladau Rhestredig, Rhestr Leol a Chofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol Cadw ynghyd â dogfennau polisi cynllunio eraill gan y Tîm Cadwraeth.

# 7 ymgynghoriad

Mabwysiadwyd y ddogfen hon yn dilyn ymgynghoriad lleol. Os hoffech chi gyfrannu neu rannu gwybodaeth ar hanes yr ardal, cysylltwch â'r Tîm Cadwraeth ar 20873485, neu 20873431.

## *Diolch i*


***Grŵp Ymgynghorol Ardal Gadwraeth Heol y Gadeirlan,***
***Y Gymdeithas Fictoraidd,***
***Swyddfa Cofnodion Morgannwg,***
***Cadw Henebion Hanesyddol Cymru.***


## *Am wybodaeth a chysylltiadau*


***Y Tîm Cadwraeth,***
***Cynllunio Strategol, Ystafell CY4***
***Neuadd y Sir Caerdydd CF10 4 UW***
***Ffon 02920 87 3485 3431***

# CYFARWYDDYD AR DDATBLYGIADAU YN YR ARDAL GADWRAETH

## Fframwaith Polisi

Cefnogir fframwaith polisi'r cyfarwyddyd hwn gan ddeddf Cynllunio 1990 (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), Polisi Cynllunio Cymru 2002, Cylchlythyr 61/96, Cynllun Strwythur Ailosodiad De Morgannwg 1991 – 2011 (Ardal Caerdydd) a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 1996 a Datganiad Ysgrifenedig wedi Adneuo o'r Cynllun Datblygu Unedol Hydref 2003, y mae gan bob un ohonyn nhw bolisïau yn cyfeirio at gadw a gwella'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys ardaloedd cadwraeth. Bydd y cyfarwyddyd a geir yn yr atodiad hwn hefyd yn ategu polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol, y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Gyngor Cynllunio i Berchnogion Tai, a chasglu gwastraff a chyfleusterau rheoli.

Nodwedd arall o fewn yr ardal gadwraeth yw'r dynodiad cyfarwyddyd Erthygl 4 sy'n rheoli mân ddatblygiadau na fyddai fel arfer angen caniatâd cynllunio arnyn nhw. Cyn gwneud gwaith mae'n bwysig holi'r Awdurdod Lleol i sefydlu a oes angen caniatâd cynllunio. Mae taflen o gynghorion ar wahân i ddeiliaid tai wedi ei darparu sy'n rhoi arweiniad ar y mater hwn. Mae hon ar gael drwy gysylltu â'r Tîm Cadwraeth neu ar wefan y Cyngor.

Mae nifer fawr o adeiladau hanesyddol yn yr ardal gadwraeth, ond nid yw'r mwyafrif wedi eu rhestru'n statudol. Mae'r eiddo hyn wedi cadw nodweddion pensaernïol sy'n helpu i gadw cymeriad yr ardal ac maen nhw'n elfennau hanfodol yn y diddordeb arbennig sydd ynddi. Efallai bod mân newidiadau ac ychwanegiadau'n ymddangos yn ddibwys ynddynt eu hunain ond o'u hystyried ar y cyd fe allent gael effaith niweidiol ar y diddordeb arbennig sydd o fewn yr ardal gadwraeth. Mae'n bwysig bod newidiadau'n rhai cydymdeimladol i gymeriad arbennig yr ardal gadwraeth.

Mae diddordeb arbennig yr ardal gadwraeth yn ganlyniad y rhinweddau allweddol a ddisgrifiwyd ym Mhennod 4. Er y gallai rhai newidiadau i adeiladau fod yn 'ddatblygiadau a ganiateir' dylai unrhyw ddatblygiad geisio cadw'r elfennau allweddol hyn. Mae'r canllaw'n nodi'r arfer da ar gyfer datblygu mewn ardal gadwraeth.

## Waliau Allanol

Ni chaniateir gorchuddio wal hanesyddol wreiddiol, naill ai drwy rendro, cladin o unrhyw fath, paentio neu unrhyw driniaeth niweidiol.

Mae dresin ac amgylchyn Carreg Caerfaddon llawer o'r eiddo wedi cael ei baentio. Pan fydd rhain yn cael eu hail-baentio, dylai hyn fod mewn lliw sy'n gweddu cystal â phosibl â charreg Caerfaddon.

Caniateir tynnu paent oddi ar waliau, y dresin a'r amgylchyn ar yr amod bod y dull priodol o'i dynnu'n cael ei ddefnyddio. Gall defnyddio dulliau anaddas o lanhau, megis cemegau, gormodedd o ddŵr neu chwipio tywod wneud difrod tymor hir i wneuthuriad adeiladau.

## Ailbwyntio

Wrth ailbwyntio mae'n bwysig bod yr asiad yn cael ei baratoi'n briodol, bod y morter o'r un lliw ac ansawdd â'r gwreiddiol a bod proffil a gorffeniad y gwaith gwreiddiol wedi ei weddu cystal â phosibl. Mae ailbwyntio gor-frwdfrydig yn gallu achosi difrod i wneuthuriad yr adeilad.

# Toeau a Thalcenni Tai

Dylid cadw ac atgyweirio manylion addurniadol gwreiddiol sydd ar dalcenni tai a thoeau, megis teils crib, ffinials ac estyll tywydd addurniadol. Fel arfer, ni fydd yn dderbyniol i neb eu diddymu. Os collwyd y manylion hyn, anogir eu hailgyflwyno gan y bydd hyn yn gwella cymeriad arbennig yr ardal gadwraeth.

Yn aml rhaid cael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith ail-doi. Os yn bosibl dylid cadw'r deunyddiau toi gwreiddiol. Os bwriedir eu hamnewid, dylid gweld i ba raddau y gellir ailddefnyddio'r deunyddiau toi gwreiddiol wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Llechi newydd naturiol neu rai wedi eu hadennill yw'r dull gorau o gadw nodweddion arbennig yr adeilad a'r ardal gadwraeth. Fodd bynnag, mae llechi replica o ansawdd da weithiau'n ddewis derbyniol amgen fel gorchudd i adeilad na restrwyd mewn ardal gadwraeth.

# Simneiau

Rhaid cael caniatâd cynllunio ar gyfer chwalu simnai. Mae'n bwysig sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu gwaith carreg a brics, y morter ac unrhyw fanylion megis potiau cyrn clai, hyd yn oed os nad yw'r simneiau'n cael eu defnyddio mwyach. Fel arfer, ni cheir cefnogaeth i fwriad i dynnu simnai i lawr os yw'n gwneud cyfraniad i'r ardal gadwraeth.

# Offer dŵr glaw

Ble bynnag bo'n bosibl, dylid cadw cafnau a pheipiau dŵr glaw o haearn bwrw. Dylai rhai a ailosodir fod mewn arddull sy'n gweddu â nodweddion arbennig yr ardal gadwraeth.

# Ffenestri To, Ffenestri Dormer ac Estyniadau To

Mae angen caniatâd cynllunio ar ffenestri to a dormer pan fyddan nhw wedi eu lleoli ar y to. Mae gosod ffenestri to a dormer newydd ar wynebau amlwg adeilad yn anghydweddol ac yn tanseilio cymeriad yr ardal gadwraeth.

Bydd gosod ffenestri to a dormer yn fwy tebygol o gael eu caniatáu ar bared cefn adeiladau gan eu bod mewn mannau o'r golwg. Fodd bynnag, os yw drychiad cefn adeilad yn amlwg o'r ffordd fawr (ac eithrio'r lonydd cefn) mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd iddyn nhw.

Ni chaiff cynigion sy'n newid maint ac uchder estyniadau yn y cefn drwy ychwanegu lloriau ychwanegol eu caniatáu.

Mae rhai adeiladau lle mae dormerau'n gwneud cyfraniad pwysig i ardal gadwraeth. Os bwriedir amnewid neu ailosod y ffenestri dormer hyn bydd disgwyl iddyn nhw gael eu newid am rai tebyg. Mae'n annhebygol y bydd cynyddu maint dormer yn dderbyniol. Nid yw newid ffenestr dormer yn falconi neu falconi bach iawn yn un o nodweddion yr ardal gadwraeth.

# Ffenestri a Drysau

Mae newid neu amnewid ffenestr a drws, fel arfer, angen caniatâd cynllunio, er nad oes yn aml angen caniatâd i gyfnewid neu amnewid am un sydd union yr un fath.

Dylid cadw ac atgyweirio ffenestri codi sash a drysau, sydd o goed gwreiddiol, os yw hynny'n bosibl. Nid yn unig mae atgyweirio coed yn fwy cynaliadwy'n amgylcheddol, mae'n aml yn rhatach na newid ffenestr gyfan ac, yn ychwanegol, mae'n cadw cymeriad gwreiddiol yr adeilad. Mae gan y Tîm Cadwraeth restr o seiri coed arbenigol a allai atgyweirio neu amnewid ffenestri a drysau coed.

Os bydd angen ffenestri newydd, rhaid i'r rhai sydd yn cael eu gosod yn eu lle weddu'n ofalus ag ymddangosiad, deunyddiau a phwrpasau'r ffenestri gwreiddiol. Os oes angen caniatâd cynllunio, ni chaniateir cyfnewid ffenestri codi sash pren gwreiddiol am ffenestri upvc dim ond pan yr ystyrir eu bod nhw'n cadw cymeriad yr ardal gadwraeth. Dylid nodi bod upvc yn aml yn ymddangos yn llai cydweddol am bod rhaid iddyn nhw fod yn fwy

trwchus. Canlyniad hyn yw nad oes iddyn nhw'r ysgafnder sy'n nodweddiadol o ffenestri sash pren.

Os oes ffenestri a drysau modern, sydd heb fod yn wreiddiol, ac os yw cyfleoedd datblygiad yn caniatáu hynny, anogir eu cyfnewid am rai sy'n adlewyrchu ymddangosiad, deunyddiau a phwrpas y rhai gwreiddiol oedd yn yr adeilad, a hynny er mwyn gwella cymeriad yr ardal gadwraeth.

Ceir rhagor o gynghorion ar atgyweirio neu amnewid ffenestri mewn taflen ar wahân "Atgyweirio ac Amnewid Ffenestri mewn ardaloedd cadwraeth / Window Repair & Replacement in Conservation Areas', sydd ar gael drwy gysylltu â'r Tîm Cadwraeth neu ar wefan y Cyngor.

Ni ddylid newid maint agoriad ffenestr neu ddrws gan y bydd hyn yn debygol o wneud niwed i olwg yr adeilad a'r grŵp y mae'n rhan ohono. Mae agoriad newydd ar wyneb amlwg adeilad yn annhebygol o fod yn derbyniol. Os oes newidiadau amhriodol wedi eu gwneud a lle bo cyfleoedd datblygu yn caniatáu hynny, anogir ailgyflwyno patrymau ffenestri nodweddiadol.

Dylid cadw gwydr addurniadol o fewn ffenestri, drysau a chyntedd portsh. Bydd unrhyw fwriad i dynnu neu newid gwydr addurniadol yn annhebygol o fod yn dderbyniol. Os yw gwydr addurniadol wedi ei niweidio, dylid ailosod y rhannau toredig yn gydymdeimladol yn hytrach na thynnu'r ffenestr yn gyfan gwbl.

Gellir cyflawni gwell effeithlonrwydd, gostwng sŵn a lleihau drafftiau drwy ddulliau rhadlon, er enghraifft drwy gynnal a chadw rheolaidd ac atgyweirio ffenestri'n briodol neu trwy osod gwydr eilaidd ar ochr fewnol y ffenestri, gosod stribedi drafftiau a hyd yn oed llenni trwchus. Mantais arall y dulliau hyn yw nad oes rhaid fel arfer gofyn am ganiatâd cynllunio.

## Cyntedd/Portsh

Adeiladwyd y cynteddau yn wreiddiol i fod yn gilfach, gyda ffrynt agored ac yn wynebu'r stryd. Ni fydd unrhyw fwriad i wneud y portsh yn un caeedig yn cael ei ganiatáu. Dylid cadw manylion addurniadol y tu mewn a thu allan y portsh. Ni fydd unrhyw fwriad i ddiddymu neu newid portsh yn cael ei ganiatáu. Os yw'r manylion wedi eu colli dylid ystyried eu hadfer. Ni fydd unrhyw gynnig i gael portsh allanol yn cael ei ganiatáu.

## Dyfeisiadau Adnewyddu Ynni, Offer Cyfathrebu ac Offer Diogelwch

Gall gosod offer ychwanegol, i ba bynnag bwrpas, gael dylanwad sylweddol ar gymeriad ardal gadwraeth. Os gosodir hwy mewn mannau amhriodol, gall yr effaith cronnus amharu ar gymeriad yr ardal gadwraeth. Yn aml, waliau cefn neu adeiladau allanol yw'r lleoliadau mwyaf priodol, os ydynt mewn mannau llai amlwg ac heb fod yn amharu ar gymeriad na golwg yr ardal gadwraeth. Os yw offer o'r fath wedi ei osod mewn man amhriodol yna dylid ei symud pan fydd cyfle'n codi er mwyn diddymu'r annibendod gweledol.

## Gerddi Ffrynt

Mae gerddi ffrynt o lawntiau neu erddi wedi eu plannu yn nodweddion deniadol. Os cynigir datblygiad, gall yr angen i ddiogelu'r cymeriad hwn olygu gwrthod rhoi caniatâd i osod palmant, tarmac neu newid anaddas arall mewn gerddi ffrynt, yn arbennig pan fo manylion gwreiddiol fel llwybr o deilsen llosgliw ac ymylon 'patrwm rhaff' yn dal mewn bodolaeth. Anogir adfer hen drefn gosodiad a manylion sydd wedi eu colli.

Os oes angen caniatâd cynllunio, ni chefnogir defnyddio gerddi ffrynt i barcio cerbydau. Os yw gerddi ffrynt eisoes wedi eu newid i gynnwys parcio cerbydau ac os yw cyfleoedd datblygu yn caniatáu hynny, anogir gwelliannau drwy adfer gerddi ffrynt traddodiadol.

## Ffiniau Terfyn yn y Ffrynt

Os yw'r ffiniau ffrynt gwreiddiol yn bodoli bydd rhain yn cael eu cadw mewn unrhyw argymhellion datblygu. Os yw'r manylion hyn wedi eu colli a bod cyfleoedd datblygu'n caniatáu hynny, anogir gwelliannau drwy eu hadfer.

Roedd rheiliau ar ben waliau terfyn a gatiau ar un adeg yn nodwedd cyffredin, ond ychydig o rai gwreiddiol sydd bellach ar ôl. Fodd bynnag, ceir digonedd o rheiliau sy'n nodwedd ar falconi neu falconi bychan. Ceir hefyd enghreifftitau diddorol o rheiliau a gatiau mwy diweddar, er enghraifft rheiliau a gatiau mewn arddull 'art-deco' llafnau'r haul (sunburst). Dylid cadw'r rhain.

Wrth atgyweirio ac adfer rheiliau a gatiau mae'n well defnyddio darnau a phroffiliau sy'n adlewyrchiad o'r traddodiad Fictoraidd neu Edwardaidd. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth i osod darnau newydd o reiliau modern o ansawdd da.

Os yw perthi newydd yn y cynlluniau tirlunio arfaethedig sy'n rhan o'r cais cynllunio, mae'n bwysig gosod planhigion sydd yn cydweddu â chymeriad yr ardal gadwraeth. Gall y Swyddogion Cadwraeth Coed roi cyngor ar rywogaeth addas o lwyni.

## Waliau Terfyn yn y Cefn

Mae'r waliau terfyn sy'n cydredeg â'r lon wasanaethu yn y cefn (sy'n cael eu hystyried yn ffordd fawr) fel arfer yn waliau tua 2 fetr o uchder o gerrig rwbel anffurfiol neu fricsen goch. Dylai argymhellion datblygu ofalu bod waliau terfyn yn y cefn yn cael eu cadw.

Ni roddir caniatâd i chwalu'r waliau'n llwyr neu'n rhannol gan leoli agoriad llydan mewn waliau terfyn cefn.

Dylai waliau newydd i ddisodli waliau modern anaddas neu ffiniau agored geisio adlewyrchu'r deunyddiau, clymiad, morter a'r pwyntio oedd yn y waliau gwreiddiol neu ddefnyddio deunyddiau eraill o ansawdd da.

## Coetsiws ac Adeiladau Allanol

Mae adeiladau allanol a choetsiws 'coach house' ar hyd y lon wasanaethu yn y cefn yn gyfraniad positif i nodwedd arbennig yr ardal gadwraeth ac fel arfer disgwylir y bydd rhain yn cael eu cadw mewn unrhyw fwriad i ddatblygu.

## Estyniadau a Datblygiadau Newydd

**P'un a yw arddull o gynllun traddodiadol neu gyfoes yn cael ei mabwysiadu, bydd llwyddiant datblygiadau newydd ac estyniadau mewn ardal gadwraeth yn dibynnu ar ddealltwriaeth o nodweddion arbennig yr ardal.**

Bydd disgwyl i estyniadau ar adeiladau presennol a datblygiadau yn ardal gadwraeth Heol y Gadeirlan ddiogelu neu wella cymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth drwy barchu cyd-destun hanesyddol yr ardal drwy:

- Gadw'r rhythmau fertigol a llorweddol sydd i ffurf yr adeiladwaith.
- Cadw golygfeydd o fewn ac i gyfeiriad yr ardal gadwraeth.
- Parchu'r defnydd presennol a wneir o'r tir.
- Atgyfnerthu'r hierarchaeth sy'n bodoli yn yr ardaloedd gofod cyhoeddus a phreifat.
- Defnyddio deunyddiau a manylion pensaernïol sydd cystal eu hansawdd â'r hyn ddefnyddiwyd yn yr adeiladau gwreiddiol.
- Parchu maint plotiau sefydledig a chynlluniau gerddi o fewn yr ardal gadwraeth.

Rhaid hefyd rhoi ystyriaeth i faterion cynllunio ehangach. Er enghraifft rhaid rhoi sylw i ddatblygiadau sy'n effeithio ar amwynderau cymdogion, yn arbennig y niwed a ellir ei achosi gan adeiladau sy'n tarfu ar breifatrwydd neu sy'n colli'r golau.

# Rheoli Gwastraff a Sbwriel

Mae hi'n bwysig bod cynigion datblygu sy'n ymwneud â rheoli gwastraff yn parchu'r amgylchedd adeiledig hanesyddol. Gallai fod caniatâd cynllunio ar gyfer storfeydd mawr i finiau a dylid eu lleoli yn ofalus, yn weledol ac er mwyn peidio tarfu ar gymdogion. Ceir rhagor o wybodaeth yn y Canllawiau Cynllunio Atodol 'Casglu gwastraff a chyfleusterau storio'.

# Canllaw ynghylch Arwyddion

Dylai arwyddion a hysbysebion ategu ymddangosiad yr adeilad sy'n eu harddangos.

Gall gormod o arwyddion mewn gardd neu ar adeilad amharu ar ansawdd yr adeilad a thanseilio cyfansoddiad pensaernïol ehangach neu grŵp ehangach o adeiladau. Dim ond arwyddion sy'n angenrheidiol i adnabod busnes sy'n berthnasol i'r adeilad ddylid felly eu gosod. Nid ddylai arwyddion mewn gerddi neu ar adeiladau guddio nodweddion pensaernïol yr adeilad. Ni roddir caniatâd i hysbesion uwchben y llawr isaf.

**Mae rhagor o wybodaeth ac arweiniad am ardaloedd cadwraeth ar gael drwy wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk neu drwy gysylltu â Thîm Cadwraeth y Cyngor ar (029) 2087 3485/3477.**

# Cyngor ar Goed a Thirlunio

Mae ardaloedd, ymylon gwyrdd a gerddi preifat i gyd yn cyfrannu tuag at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth ac mae gan yr Awdurdod Cynllunio bwerau arbennig o fewn yr Ardal Gadwraeth i gynorthwyo i'w diogelu. Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at faterion tirlunio gan gynnwys coed, parcio, gerddi, perthi, ffensys a gatiau o fewn yr Ardal Gadwraeth.

## Coed

Mae cadwraeth arbennig ar goed mewn Ardal Gadwraeth. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i wneud gwaith ar goed sydd â diamedr dros 7.5 centimedr (tua 3 modfedd), wedi ei fesur 1.5 metr (tua 5 troedfedd) uwch y ddaear. Yn benodol, rhaid i chi roi o leiaf 6 wythnos o rybudd o'ch bwriad i gyflawni'r gwaith i'r Awdurdod Cynllunio. Bydd yr Awdurdod yn cytuno i waith fydd yn lles i'r coed a gall gytuno i waith arall ddigwydd os yw'r manteision yn bwysicach na difrodi'r coed. Os na fydd yr Awdurdod yn ymateb o fewn 6 wythnos gellir cwblhau'r gwaith beth bynnag. Mae'r cosbau y gall llys ei osod am beidio rhoi rhybudd yn gallu bod yn ddifrifol.

Nid symud neu ladd coeden yw'r unig waith a olygir, ond hefyd ei thocio neu ddifrodi'r gwreiddiau neu'r canghennau, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Rhaid felly gwneud cais, er enghraifft, os ydych am newid lefelau pridd wrth ymyl coed, neu osod arwynebedd anhydraidd, fel dreif newydd. Byddai hefyd yn drosedd i achosi difrod i goeden drwy lygru'r amgylchedd o'i chwmpas, er enghraifft drwy roi chwynladdwr ar lawnt gyfagos. Mae nifer o eithriadau i'r angen am ganiatâd, yn arbennig ar gyfer coed sydd yn farw, ar fin farw neu'n beryglus. Fe'ch cynghorir, ac eithrio mewn achosion o wir berygl, i ffônio Swyddog Cadw Coed cyn gweithredu ar unrhyw un o'r eithriadau hyn. Fel arfer, bydd rhaid ailblannu coed newydd yn lle'r coed sydd wedi eu codi'n anghyfreithlon. Os yw'r gwaith rydych am ei wneud yn ddatblygiad sydd angen caniatâd cynllunio, dylech ei gyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio. Ni fydd rhaid i chi wedyn wneud cais ar wahân – bydd yr holl faterion yn cael eu hystyried ar yr un pryd.

Os oes gennych goeden fawr neu amlwg, rydym yn eich cymell yn gryf, o bryd i'w gilydd, i ofyn am gyngor meddyg coed ar sut i'w gwarchod yn y tymor hir. Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw dyladwy i farn meddyg coed wrth ystyried ceisiadau. Caiff coed ar y priffyrdd neu goed ym mharciau a meysydd rheoledig y Cyngor, eu gofalu amdanynt gan Wasanaethau Parciau'r Cyngor, ac maen nhw dan reolaeth tymor hir a oruchwylir gan arbenigwr coed cymwysedig.

Mae gerddi ffrynt o lawntydd neu erddi wedi eu plannu sydd wedi eu hamgylchynu gan lwyni neu rheiliau yn rhoi cymeriad arbennig i Ardal Gadwraeth. Gall yr angen i ddiogelu'r cymeriad hwn olygu gwrthod caniatâd i newid neu osod pafin mewn gerddi ffrynt.

Am fanylion cyswllt a gwybodaeth:

Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd
Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell CY4,
Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd,
Caerdydd. CF10 4UW.
Ffôn: (029) 2087 3477/3485